

CYNGOR CYMUNED BRYNGWRAN COMMUNITY COUNCIL

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWDYD NOS FERCHER
17 MEDI 2014 AM 7.00 O'R GLOCH YN NEUADD YR YSGOL

YN BRESENNOL

Cyng I Roberts JP, N Highley, R G Parry, A Michael, S Parry, E Huws, I Rowlands,
C LI Thomas, D Rees (Cyngor Sir), Sgt P Murray, PCSO C Gilford

YMDDIHEURIADAU

Cyng K Humphreys, N Roberts (Cyngor Sir)

Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng I Roberts JP. Cynigodd y
Cadeirydd croeso i pawb.

Dechreuwyd y cyfarfod gyda gwrs gyda Sgt Murray a PCSO Gilford ar
dyletswyddau yr Heddlu i amddiffyn y gymuned. Hefyd, trafodwyd gor-yrru yn
y pentref. Cynigodd Sgt Murray trosglwyddo y mater at Gan Bwyll, hefyd
mater parcio yn Bro Mynydd at yr Adran Priffyrdd

DATGAN DIDDORDEB - Cyng S Parry cais cynllunio Bro Mebyd, Bryngwran

DERBYN COFNODION Y CYFARFOD 9 Gorffennaf 2014

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod 9 Gorffennaf 2014, Cyng R G Parry yn
cynnig a Cyng S Parry yn eilio.

MATERION YN CODI O'R COFNODION

Llwybr Cyhoeddus Lon Bryngwran Ffarm - Pen Rhiw - Mae y Cyngor Sir
wedi archwilio y llwybr. Bydd y clerwr yn gofyn am adroddiad gan y Cyngor Sir
Ganmlwyddiant y Rhyfel Mawr - Mae cwmni G Roberts a'i Fab, y Fali wedi
bod i'r safle ac am paratoi pris. Mae'r clerwr hefyd wedi trefnu i cwmni arall
cynnig pris. Penderfynwyd peidio symud ymlaen gyda'r railings.

Plaque Eisteddfod Mon - mewn llaw (penderfynwyd gosod yn y maes
chwarae)

Cysgodfannau Bws - Cynigodd y Cadeirydd cysylltu a Bethan Williams i
trefnu gwneud y gwaith cyn y gaeaf. Ni fydd y Cyngor Sir yn gallu glanhau y
cysgodfan yn Treban. Bydd y clerwr yn chwilio am gwirfoddolwyr i gwneud y
gwaith.

Yr Heddlu (dyletswyddau i amddiffyn y gymuned) - gweler uchod

Y Carreg Filltir - mewn llaw

20 myh wrth ymyl yr ysgol - Bydd y clerwr yn trefnu cyfarfod ar y safle

Parcio Bro Mynydd - gweler uchod

LLOFNOD

(Cadeirydd) 8 Hydref 2014

ADRODDIAD Y CADEIRYDD- dywedodd y Cadeirydd bydd uned "Vision Support" ar gael i cynnig gwybodaeth yn maes parcio yr Ysgol ar 3 Tachwedd.

GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MON

Cynllunio

16C151A Cais llawn ar gyfer ail-leoli'r modurdy a ganiatawyd yn flaenorol dan ganiatad cynllunio 16C151 ynghyd ag addasu'r annedd presennol yn Plas Llechylched, Bryngwran - dim sylwadau

16C110F Cais llawn ar gyfer codi annedd a modurdy preifat ar dir ger Cranham, Bryngwran- dim sylwadau

16C200 Cais llawn ar gyfer codi annedd ynghyd a chreu mynedfa i gerbydau ar dir ger Bro Mebyd, Bryngwran - dim sylwadau (gadawodd Cyng S Parry yr ystafell tra oedd y cyngor yn trafod y cais yma)

16C48H Cais llawn i cadw slab concrid ynghyd a chodi sied amaethyddol i'w defnyddio fel storfa ac i gadw anifeiliad ar dir yn Ger y Bryn, Bryngwran - dim sylwadau

16C69F Cais llawn ar gyfer codi sied amaethyddol ar dir yn Cefn Coed, Capel Gwyn - dim sylwadau

32C191/RE/SCR Cais am farn sgrinio ar gyfer lleoli parc arae heulol 49mw ar dir yn Llanfair yn Nhowyn - dim sylwadau

Dogfen Adeilad Niwclear Newydd yn Wylfa (gwybodaeth yn unig)

Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Mon

Llythyr yn cadarnhau bod y Cyngor wedi cael grant £2398

GOHEBIAETH YCHWANEGOL

Dim

MATERION ARIANNOL

Penderfynwyd talu y canlynnol - J H & L Lloyd £3327.76 (ffensio y maes chwarae), costau y clerch £82.60, costau y cadeirydd £88.80

MATERION ERAILL

Cysgodfan bws Treban (damwain)

Mae un o'r cysgodfannau bws yn croesffordd Treban wedi cael ei ddymchwel yn dilyn damwain car. Yn dilyn ymholiadau gyda'r Cyngor Sir, dywedodd y Clerch bod y ddwy cysgodfan yn Treban wedi cael eu trosglwyddo i'r Cyngor Cymuned rhai blynyddoedd yn ol. Yn anffodus, does ddim yswiriant ar y ddwy yma (dim ond ar y pedwar yn Stryd Fawr, Bryngwran). Bydd y clerch yn cysylltu a'r Heddlu i cael manylion yswiriant y car ac yn trefnu i cwmni yswiriant y Cyngor yswirio y cysgodfannau yn Treban.

23 Bro Mynydd, Bryngwran

Yn dilyn cwyn, dywedodd y clerch bod y Cyngor Sir wedi anfon llythyr at y tenant yn gofyn iddi reoli ei chi

Archwiliwr

Derbynwyd adroddiad yr Archwiliwr Allanol